Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.gov.wales

# Rhaglen wirio allanol genedlaethol

## Cwestiynau cyffredin

1. Pam mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r rhaglen wirio allanol?

   Asesu athrawon yw'r brif ffordd o fonitro cynnydd dysgwyr yng Nghymru. Yn ôl tystiolaeth ymchwil mae gan Gymru holl nodweddion system asesu lwyddiannus; fodd bynnag dengys adborth gan randdeiliaid bod angen gwella hyder mewn ansawdd, cysondeb a dibynadwyedd asesiadau.

2. A gynhaliwyd ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar gyflwyniad rhaglen wirio allanol?

   O fis Rhagfyr 2014 i fis Mawrth 2015, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar amrywiaeth o gynigion ar gyfer gwella dibynadwyedd a chysondeb asesiadau athrawon, gan gynnwys cyflwyno rhaglen wirio allanol.

   Dengys y Crynodeb o ymatebion a gyhoeddwyd bod y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd yn cefnogi cyflwyno rhaglen wirio allanol.

3. Pwy sy'n cynnal gwiriad allanol?

   Cafodd y contract i gynnal gwiriad allanol o asesiadau athrawon ei dendro ym mis Ebrill 2015. Y Bartneriaeth, sy'n cynnwys y pedwar consortiwm addysg rhanbarthol a CDSM Interactive Solutions Ltd a enillodd y contract.

   Mae'r Bartneriaeth yn rheoli'r gwaith o recriwtio gwirwyr, yn seiliedig ar swydd-ddisgrifiad a gytunwyd yn genedlaethol. Penaethiaid presennol, penaethiaid adrannau a, phan fo'n ofynnol, swyddogion consortia gydag arbenigedd pwnc sy'n cael eu recriwtio i fod yn wirwyr.

4. Pa bynciau sydd wedi eu dewis i gael gwiriad allanol?

Y pynciau y canolbwyntiwyd arnynt yn 2015 oedd mathemateg a gwyddoniaeth. Yn 2016 bydd y pwyslais ar Cymraeg, Saesneg a Chymraeg ail iaith.

5. A fydd gofyn i ysgolion cyfrwng deuol ddarparu proffiliau dysgwyr ar gyfer Cymraeg a Chymraeg ail iaith i gael eu gwirio'n allanol?

Na fydd. Dim ond proffiliau ar gyfer un pwnc y bydd gofyn i ysgolion sy'n dysgu rhaglenni astudiaeth Cymraeg a Chymraeg ail iaith eu darparu.

6. Pa ddefnydd a wneir o'r wybodaeth a gesglir yn y broses wirio ac a yw'r wybodaeth yn cael ei rhannu gydag asiantaethau eraill?

Bwriad y rhaglen wirio allanol yw gwella cywirdeb a chysondeb asesiadau athrawon drwy roi adborth o ansawdd uchel i'r holl randdeiliaid allweddol.

Bydd gwiriad allanol yn asesu pa mor gywir yw prosesau asesu/cymedroli athrawon ac yn helpu i adnabod anghenion hyfforddiant ysgolion a chlystyrau.

Mae'r wybodaeth ar ysgolion unigol a gesglir yn rhan o'r broses wirio allanol yn gyfrinachol i'r rhaglen ac nid yw'n cael ei hadrodd i'r awdurdod lleol, y consortia rhanbarthol na Llywodraeth Cymru.

7. Pa adborth y gall ysgolion ddisgwyl o'r rhaglen wirio allanol?

Fel yn 2015, bydd y Bartneriaeth yn rhoi adborth i ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ar ffurf adroddiad cryno sy'n amlygu'r canfyddiadau allweddol. Nid yw'r adroddiad yn benodol i ysgol. Yn hytrach, mae'n genedlaethol ac yn amlinellu canfyddiadau cyffredinol. Bydd y Bartneriaeth yn anfon yr adroddiad hwn i bob ysgol, a bydd tîm y rhaglen yn dosbarthu copïau i brif undebau'r penaethiaid, yr athrawon a'r staff cymorth. Trefnwyd hyfforddiant i bob ysgol yn eu rhanbarth eu hunain, er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r gwersi a ddysgwyd.

8. Sut y bydd ysgolion yn cael eu dethol i gymryd rhan yn y rhaglen wirio allanol?

Dewisir ysgolion i gymryd rhan drwy samplu ar hap a samplu a dargedir. Caiff ysgolion yn y samplau a dargedir ac a ddewisir ar hap eu gwirio yn yr un ffordd ac ni chaiff eu statws ei ddatgelu i wirwyr, ond fe'i defnyddir gan dîm canolog y rhaglen at ddibenion cymharu.

Yn 2016 bydd y broses yn cynnwys ymweliadau â grwpiau clwstwr.

## 9. Pa gyfran o ysgolion a grwpiau clwstwr a fydd yn cael eu cynnwys yn y rhaglen wirio allanol yn 2015/16?

- Ysgolion – sampl o 10% o bob ysgol yng Nghymru, yn gytbwys o ran rhanbarth, iaith a chyfnod.
- Clystyrau – sampl o 20% o bob clwstwr yng Nghymru.

## 10. Pa bryd y bydd ymweliadau gwirio allanol yn cael eu cynnal?

Bydd ymweliadau gwirio allanol yn cael eu cynnal yn ystod tymor haf 2016. Bydd clystyrau'n cael eu gwirio ym mis Ebrill/Mai. Ymwelir ag ysgolion ym mis Mehefin.

## 11. Pa bryd y byddaf i'n cael gwybod bod fy ysgol wedi ei dewis?

Bydd ysgolion yn cael gwybod eu bod wedi eu dewis i gymryd rhan yn y rhaglen wirio allanol erbyn diwedd tymor gwanwyn 2016, drwy dderbyn hysbysiad o'r ymweliad gwirio. Bydd ysgolion yn cael gwybod pa ddysgwyr sydd wedi eu dewis yn yr hysbysiad o'r ymweliad gwirio. Bydd y gwirwyr wedyn yn cysylltu â'r ysgolion sydd wedi eu dewis i drefnu dyddiad addas ar gyfer yr ymweliad.

## 12. Pa wybodaeth y bydd yn ofynnol i ysgolion ei darparu?

Gofynnir i ysgolion ddarparu'r proffiliau dysgwyr a gyflwynwyd ar gyfer cymedroli clwstwr (gweler cwestiynau 13–16 isod).

Yn ogystal, gofynnir i ysgolion sicrhau bod gwaith dyddiol hyd at dri o ddysgwyr a ddewisir ar hap ar gael (gweler cwestiynau 16–17 isod).

## 13. Sut mae proffil dysgwr yn edrych?

Dylai proffil dysgwr fod mor syml â llyfr neu lyfrau'r dysgwyr sy'n dangos tystiolaeth o nodweddion y lefelau a tharged(au) cyrhaeddiad perthnasol. Gallai gwaith arall a fyddai'n rhoi darlun llawn o safonau'r dysgwr gynnwys llyfr themâu/testun, recordiadau clyweled neu gofnodion darllen.

Bydd y sylwebaeth ar y proffil dysgwr a anfonir i gael ei gymedroli gan y clwstwr yn cyfleu yn eglur sut y daethpwyd i'r dyfarniad sy’n cyd-fynd orau, ar ôl pwyso a mesur, a pham nad yw ar y lefel uwch neu is os yw ar y ffin. Mae angen i'r sylwebaeth fod ar ffurflen ar wahân, sy'n rhoi mwy o le i fanylder ac yn ei gwneud yn haws ar gyfer gwirio. Bydd ysgolion yn cael enghraifft o ffurflen sylwebaeth wedi ei llenwi. Bydd y sylwebaeth yn dangos lle mae modd gweld tystiolaeth o gyflawniad ar lefel benodol yn y llyfr gwaith neu mewn deunydd gwreiddiol arall a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.

14. Faint o dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer llunio proffil dysgwr?

Nid oes gofyniad penodol o ran faint o dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer llunio proffil dysgwr. Dylai proffiliau gynnwys digon o dystiolaeth i ddangos dealltwriaeth y dysgwr a'i ddefnydd annibynnol o sgiliau ar draws amrywiaeth o gyd-destunau.

15. A oes angen cadw recordiadau clyweled, cofnodion darllen a sylwebaethau?

Dylai'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gan ysgol i lunio dyfarniad sy'n cyd-fynd orau ar gyfer unrhyw blentyn drwy brosesau safoni/cymedroli mewnol fod ar gael yn yr ysgol. Nid yw'n ofynnol i ysgol gadw unrhyw beth ychwanegol ar gyfer ei wirio'n allanol, ar wahân i'r gwaith arferol y byddai dysgwyr yn ei wneud.

16. A fydd angen creu proffil dysgwr ar gyfer y dysgwyr ychwanegol a ddewiswyd yn rhan o'r broses wirio?

Na, ni fydd yn ofynnol i greu proffil dysgwr. Bydd gwirwyr yn chwilio am dystiolaeth i gefnogi dyfarniadau sy'n cyd-fynd orau drwy'r gwaith sydd ar gael yn llyfrau'r dysgwyr hyn, ynghyd ag unrhyw dasgau perthnasol eraill yr ymgymerwyd â hwy sy'n cyfrannu, ym marn broffesiynol yr athro, at y dyfarniad cyffredinol.

17. Pa dystiolaeth y mae'r diffiniad o 'dasgau eraill yr ymgymerwyd â hwy' yn ei gynnwys ac a oes angen casglu/cadw cofnod o'r tasgau hyn yn arbennig at ddibenion gwirio?

Dylai tystiolaeth sy'n ofynnol i gyfiawnhau'r lefel fod ar gael o fewn gwaith dyddiol cyffredin dysgwr, gan gynnwys unrhyw dasgau y mae'r ysgol wedi eu gosod er mwyn eu caniatáu i wneud dyfarniad sy'n cyd-fynd orau.

Caiff gwiriadau allanol o glystyrau eu seilio ar broffiliau dysgwyr. Mae proffiliau dysgwyr yn ofynnol ar gyfer y gwaith a ddewiswyd ar gyfer cymedroli clwstwr ac nid yw'r anodiad sy'n ofynnol ar gyfer y rhain yn cael ei osod gan y broses wirio.

Ar gyfer dysgwyr ychwanegol a ddewiswyd ar hap, dylai eu gwaith, ynghyd â sylwadau'r athro a wnaed yn rhan o'r marcio arferol, gefnogi'r dyfarniad sy'n cyd-fynd orau.

18. Beth sy'n digwydd os nad yw'r gwiriwr yn cytuno â'r lefel a ddyfarnwyd i'r proffiliau dysgu a ddarparwyd?

Mae proses apelio wedi ei datblygu yn rhan o'r broses wirio allanol. Bydd pob ysgol a ddewisir yn cael manylion llawn am y broses hon fel mater o drefn.

## 19. Pa gymorth sydd ar gael i ysgolion?

Mae deunyddiau enghreifftiol a gynhyrchwyd yn flaenorol ar gael drwy glicio ar y tab 'Arweiniad' yn adran 'Cyfnodau Allweddol 2–4' ar Dysgu Cymru:

learning.gov.wales/resources/collections/key-stages-2-4?lang=cy

Mae'r deunyddiau hyn ar gyfer proffiliau clwstwr yn y pynciau craidd yn dal yn berthnasol.

Mae deunyddiau enghreifftiol ychwanegol yn cael eu cynhyrchu ar hyn o bryd i gefnogi asesiadau athrawon. Gyda'i gilydd, bwriad y deunyddiau hyn yw helpu ymarferwyr wrth iddynt wneud dyfarniadau sy'n cyd-fynd orau – byddant yn ychwanegu at yr adnodd a gynhyrchwyd yn flaenorol.

## 20. A oes deddfwriaeth newydd sy'n llywodraethu cymedroli clwstwr?

Oes, daeth deddfwriaeth newydd i rym ar 1 Medi 2015 sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol gymryd rhan mewn cymedroli grwpiau clwstwr ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn gosod dyletswyddau ychwanegol ar benaethiaid. Ceir eglurhad manylach ar wefan Dysgu Cymru ar:

learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/141030-statutory-assessment-arrangements-cy-v2.pdf

## 21. A fydd y ddeddfwriaeth newydd hon ar gymedroli clwstwr yn berthnasol i ysgolion arbennig?

Na fydd. Caiff ysgolion arbennig a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru eu heithrio o'r gofyniad i gymryd rhan mewn cymedroli grwpiau clwstwr. Fodd bynnag, mae croeso i benaethiaid o ysgolion arbennig, neu eu cynrychiolwyr, gymryd rhan a mynychu cyfarfodydd grwpiau clwstwr, os dymunant wneud hynny.